**Adroddiad y Trysorydd**
**Tachwedd 2023**

Roedd y flwyddyn ariannol 2022-2023 yn un prysur i'r Côr. Gydag incwm o 8 cyngerdd (2 yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol), tâl aelodaeth, y cerdyn pêl droed, rhoddion a gwerthiant CDs, mae cyfrif y Côr yn edrych yn dipyn iachach eto eleni ac yn dangos elw o £4808.39 am y flwyddyn.

Mae teithiau'r côr yn dangos colled ond, fel yr adroddwyd ym mantolen 2021-2022, roedd £4044 o'r costau eleni yn wariant ar gyfer costau Taith Gaerdydd y flwyddyn ariannol gynt. Roedd aelodau eisoes wedi talu am y trip cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Hefyd, bydd ad-daliadau ar gyfer y cyngerdd Bedford a ganslwyd yn ddiweddar (oddeutu £1085) a rhai costau arall yn cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Unwaith eto, roedd heriau mawr wrth hel pres ar gyfer teithiau'r Côr eleni gyda rhai yn araf yn talu a rhai yn newid cynlluniau (yn aml am resymau dilys). Mae'n mynd yn anodd cadw cyfrif ar daliadau wedyn. Mae hyn yn bwnc trafod rheolaidd yng nghyfarfodydd pwyllgor y côr.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Dafydd Lloyd unwaith eto am ei waith rheolaidd yn hel pres ar gyfer y cerdyn pêl-droed bob wythnos. Mae'r pres a gesglir trwy hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at goffrau'r côr. Yn ogystal, diolch yn fawr iawn i Dafydd a chriw bach o ffyddloniaid sy'n gweithio yn galed i sicrhau fod y neuadd yn barod ar gyfer ymarfer ac yn cloi'r ysgol ar ddiwedd bob ymarfer. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at y coffrau gan ei fod yn golygu nad oes raid i ni dalu staff Ysgol y Moelwyn i wneud y gwaith.

Hoffwn ddiolch unwaith eto i John Cadwaladr am ei amser a'i gymorth yn archwilio'r cyfrifon a gwirio'r fantolen hon.

Mi fyddaf yn sefyll i lawr o rôl y Trysorydd ar ôl y cyfarfod heddiw. Nes i erioed ofyn i gael gwneud y swydd na roi fy enw gerbron (bydd rhaid i mi ddysgu sut i ddweud 'Na' o hyn ymlaen!) ond mae wedi bod yn fraint cefnogi'r côr dros yr wyth mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae dal i weithio yn llawn amser yn golygu na allaf roi amser haeddiannol i'r swydd fel trysorydd. Dwi'n dymuno'n dda i fy olynydd.

Stuart Gray
Trysorydd
Côr Meibion y Brythoniaid

# MANTOLEN CÔR Y BRYTHONIAID, 2022/2023

(Ffigyrau 2021/2022 mewn cromfachau)

| **DERBYNIADAU** | | | **COSTAU** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CDs | | 611.50<br>(63.56) | CDs | | 0<br>(0) |
| **Cyngherddau Ac ati** | | | | | |
| **Cyngherddau**<br>(Gweler isod) | | 7568.47<br>(891.00) | | | 2783.50<br>(741.00) |
| | | | Ffioedd Cystadlu | | 397.00 |
| **Rhoddion** | | 1741.17<br>(127.25) | **Treuliau Uniongyrchol** | | |
| | | | Arweinydd | | 2720<br>(2590) |
| | | | Cyfeilyddes | | 2400<br>(2285) |
| | | | | | |
| | | | Eraill<br>(Ad-daliadau, ayb) | | 242.00<br>(230.56) |
| | | | | | |
| | | | Teithio Arweinydd | | 840.80<br>(0) |
| **Tal Aelodaeth** | | 4125.00<br>(4520.40) | Teithio Cyfeilyddes | | 237.60<br>(0) |
| **Grantiau** | | 0<br>(0) | Teithio eraill | | 0<br>(0) |
| **Taith(aelodau)** | | 12,909.40<br>(1140.00) | **Taith(aelodau)** | | 14,099.00<br>(0) |
| | | | | | |
| | | | **Treuliau Anuniongyrchol** | | |
| **Raffl** | | 383.51 | Raffl | | 35.94 |
| **Eraill** | | 3<br>(72) | Cerdd | | 0<br>(0) |
| | | | | | |
| **Derbyniadau Eraill** | | | Dillad | | 378.60<br>(0) |
| Cerdyn pêl droed | | 2429.27<br>(1142.42) | Yswiriant + Aelodaeth | | 0<br>(128.25) |
| Dillad | | 130.00<br>(0) | Llungopïo a Chostau Argraffu | | 86.64<br>(17.97) |
| Treth Rhodd (Gift Aid) | | 0<br>(0) | Safle'r we | | 370.00<br>(0) |
| Llog Banc<br>(+ Iawndal) | | 57.19<br>(373.65) | Ffioedd Banc | | 106.05<br>(115.19) |
| | | | Costau eraill | | 22.99 |
| | | | Cloi'r ysgol<br>+ Gwobr CPD | | 430.00<br>(505.00) |
| **CYFANSWM** | | **29958.51** | **CYFANSWM** | | **25150.12** |
| | | | Elw am y flwyddyn | | 4808.39 |
| | | **29958.51** | | | **29958.51** |
| | | | | | |
| **Yn y Banc 1.8.2021** | Prif<br>Cadw | 8724.54<br>6241.56 | **Yn y Banc 31.7.2022** | Prif<br>Cadw | 13475.74<br>6298.75 |
| ARIAN Mewn Llaw | | 0 | | | 0 |
| **CYFANSWM** | | **14,966.10** | **CYFANSWM** | | **19774.49** |

| **CYNGHERDDAU AC ATI** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | **Costau** | |
| **Gwyl Cerdd Conwy** | | 800.00 | | **Gwyl Cerdd Conwy** | 350.00 |
| **Cyng. Elusennol Llanfairfechan** | | 0 | | | 350.00 |
| **Hafan y Mor X2** | (Un cyngerdd yn 2021-2022) | 1700.00 | | **Hafan y Mor** | 350.00 |
| **Caerdydd (gyda Côr Meib. Taf)** | | 600.00 | | | |
| **Cyng. Elusennol Wcrain** | | 350.00 | | **Cyng. Elusennol Wcrain** | 350.00 |
| **Cyng. Plas Glyn y Weddw** | | 2089.50 | | **Cyng. Plas Glyn y Weddw** | 350.00 |
| **Cyngerdd Blynyddol** | | 1865.00 | | **Cyngerdd Blynyddol** | 1033.50 |
| **Breindal Sain** | | 163.97 | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **CYFANSWM** | | **7568.47** | | | **2783.50** |